**Statws** *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2008 No. 1732

# Gorchymyn Addysg (Y Cwricwlwm Cenedlaethol) (Y Cyfnod Sylfaen) (Cymru) 2008

**Y cyfnod sylfaen**

**2.**—(1) Y cyfnod sylfaen o ran disgybl yw'r cyfnod sy'n dechrau gyda'r amser perthnasol (fel y'i diffinnir ym mharagraff (2)) ac sy'n diweddu ar yr un amser â'r flwyddyn ysgol y bydd mwyafrif y disgyblion yn nosbarth y disgybl yn cyrraedd saith oed ynddi.

(2) Ym mharagraff (1) ystyr "yr amser perthnasol" ("*the relevant time*") yw—

(a) yn achos plentyn y darperir iddo addysg feithrin a ariennir cyn iddo gyrraedd tair oed, ei drydydd pen-blwydd;

(b) yn achos plentyn y darperir iddo addysg feithrin a ariennir ar ôl iddo gyrraedd yr oedran hwnnw, yr amser pan ddarperir yr addysg honno iddo gyntaf; ac

(c) yn achos plentyn na ddarperir iddo unrhyw addysg feithrin a ariennir, yr amser pan fydd yn cael gyntaf addysg gynradd nad yw'n addysg feithrin.